**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Robin Walker AS,
Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ymadael â'r UE

22 Mawrth 2019

Annwyl Robin

**Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Dymunwn dynnu eich sylw at reoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Y mater sy'n codi gyda'r rheoliadau hyn yw bod anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch ffiniau datganoli yng Nghymru.

Y rheoliadau hynny yw:

- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Amaethyddiaeth a Physgodfeydd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 - lle mae anghytuno rhwng y ddwy lywodraeth ynghylch a yw cymorth gwladol wedi'i ddatganoli.

- Rheoliadau Bwyd, Diod, Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019; Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 - lle mae anghytuno rhwng y ddwy lywodraeth ynghylch a yw enwau bwyd gwarchodedig a dynodiadau daearyddol cynlluniau bwyd wedi'u datganoli.

Yn yr achosion hyn, rydym yn deall bod Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru y bydd gan Lywodraeth Cymru rôl yn y gwaith o weithredu'r cynlluniau sy'n ymwneud â chymorth gwladol a dynodiad daearyddol bwyd ac ati. Fodd bynnag, er ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd o'r fath, a bod Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn, yn ddiffuant, nid ydym yn credu mai dyma yw'r ffordd y dylid datrys anghydfodau ynghylch ffiniau datganoli.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Mae'r ffaith bod anghytundebau o'r fath yn parhau hyd heddiw yn hynod siomedig o ystyried mai diben symud pwerau'r Cynulliad i fodel cadw pwerau oedd sicrhau eglurdeb o ran ffiniau datganoli yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar am eich barn ynghylch yr anghytundebau sydd wedi codi, ac a ydych chi'n cytuno nad yw rhoi sicrwydd ysgrifenedig (er yn ddiffuant) yn ffordd briodol o ddatrys anghydfodau o'r fath.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.

Yr eiddoch yn gywir,

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.